

Ymateb y rheolwyr

Teitl yr adroddiad: Cyngor Gwynedd – Diweddariad ar Gynnydd Datgarboneiddio

Dyddiad cwblhau: Rhagfyr 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3199A2022

Cyf	Argymhelliad	Blaenoriaeth uchel (ie/na)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
A1	<p>Dylai'r Cyngor sicrhau bod y camau lefel uchel yn ei gynllun datgarboneiddio:</p> <p>a) wedi'u blaenoriaethu yn seiliedig ar feini prawf clir, gan gynnwys effaith carbon ac ariannol;</p> <p>b) yn cyd-fynd â'i Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'i Raglen Gyfalaf; ac</p> <p>c) wedi'u hintegreiddio mewn cynlluniau busnes.</p>	le	<p>A) Mae rhai prosiectau wedi eu cynnwys yn ein Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur.pdf (llyw.cymru) (CAHN) oherwydd bod gennym eisoes ddata sy'n dangos y byddant yn cael effaith gadarnhaol ar leihau allyriadau carbon neu gynyddu lefelau amsugno carbon. Os nag oes data ar gael, mae prosiectau wedi eu cynnwys oherwydd bod</p>	Mehefin 2023	Bethan Richardson

Cyf	Argymhelliad	Blaenoriaeth uchel (ie/na)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
			<p>tystiolaeth ddigonol y bydd yn arwain at ganlyniad positif – ee. gosod pwyntiau gwefru mewn mannau cyhoeddus at ddefnydd trigolion Gwynedd. Er hynny, rydym yn mireinio ein prosesau mewnol o flaenoriaethu'r amserlen ar gyfer cychwyn a chyflawni prosiectau.</p> <p>B) Mae'r cyngor wedi neilltuo £3M fel cyllideb refeniw tymor canolig er mwyn ariannu prosiectau yn y CAHN. Yn ychwanegol at hyn mae cyllid cyfalaf o £456k yn cael ei wario yn 2022/23 ar osod pwyntiau gwefru cyhoeddus, ac £2.8M ar wedd 4 cynllun PV allan o reserfau'r Cyngor fydd yn arwain at arbediad</p>	Parhaus	

Cyf	Argymhelliad	Blaenoriaeth uchel (ie/na)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
			<p>refeniw. Mae amrywiol geisiadau grant am gyllid allanol hefyd wedi/am gael eu cyflwyno. Mae gwaith yn parhau i gostio rhai o'r prosiectau yn y CAHN felly byddwn yn adolygu ein cyllidebau yn flynyddol pan fydd y costau yn hysbys.</p> <p>C) Mae'r gwaith o adolygu strategaethau, polisiau a chynlluniau busnes y Cyngor ar y gweill, a bydd yn waith parhaus. Rydym yn trefnu hyfforddiant ymwybyddiaeth a gwybodaeth am faterion hinsawdd i staff ac aelodau gyda'r bwriad y bydd yn dod yn ail natur i gynnwys ystyriaeth i faterion hinsawdd</p>	Mehefin 2023	

Cyf	Argymhelliad	Blaenoriaeth uchel (ie/na)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
			wrth greu cynlluniau busnes a chynllunio gwaith.		
A2	Dylai'r Cyngor ddatblygu cyfres gadarn o fetrigau i fesur ac adrodd ar y cynnydd ar ei daith ddatgarboneiddio.	Na	<p>Mae'r Cyngor yn casglu data am ei allyriadau carbon a lefelau amsugno carbon a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn flynyddol gan ddilyn templed adrodd sy'n cael ei defnyddio gan y rhan fwyaf o sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru.</p> <p>Rydym yn gallu defnyddio'r data er mwyn mesur effaith nifer o'n cynlluniau yn ein Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur – ee. defnydd ynni, allyriadau fflyd – ond mae'n anoddach profi'r cysylltiad</p>	Blynyddol parhaus	Bethan Richardson

Cyf	Argymhelliad	Blaenoriaeth uchel (ie/na)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
			<p>gydag eraill – ee. annog teithio llesol ymysg trigolion ac ymwelwyr, meithrin a chynnal diddordeb trigolion ac ymwelwyr mewn materion ecolegol.</p> <p>Rydym yn aros am becyn canllawiau gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i fesur effaith carbon defnydd tir, ond mae gwaith ar y gweill yn fewnol hefyd i fesur effaith carbon gweithio o gartref, cymudo, sefydlu gwaelodlin i fesur bioamrywiaeth ayb.</p> <p>Byddwn yn cyflwyno adroddiad blynyddol fydd yn mesur cynnydd y CAHN.</p>		